

TERFYNOL

Adolygiad Diwedd Tymor

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

10 Tachwedd 2025

FinWell Coaching & Consulting Ltd

Rhif Cofrestru'r Cwmni 10279810

Cynnwys

Cynnwys	Error! Bookmark not defined.
1 Crynodeb Gweithredol	3
2 Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
3 Casgliadau	Error! Bookmark not defined.
3.1 Cyfansoddiad y Bwrdd	Error! Bookmark not defined.
3.2 Strategaeth, risg, a phwmpas	7
3.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	9
3.4 Arweinyddiaeth o'r Gadair	11
3.5 Deinameg, diwylliant ac ymddygiad y Bwrdd	11
3.6 Prosesau'r Bwrdd	11
4 Atodiad I – Rhestr o Argymhellion	14

1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ("y Bwrdd") yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tâl a'r adnoddau priodol ar gael gan Aelodau'r Senedd ("Aelodau") i'w galluogi i gyflawni eu swydd. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau'r Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio am gostau staffio a swyddfa, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur") yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gwaith y Bwrdd.

1.2 Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi Penderfyniad sy'n nodi cyflogau'r Aelodau a'r Staff Cymorth a threuliau swyddfa eraill. Cyhoeddir y Penderfyniad ar gyfer tymor y Senedd nesaf yn y flwyddyn cyn etholiadau'r Senedd. Er bod cyflogau'r Aelodau'n cael eu pennu ymlaen llaw ac nad oes modd eu hadolygu oni bai bod amgylchiadau eithriadol, mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad yn flynyddol.

1.3 Bydd Comisiwn y Senedd yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd i'w alluogi i weithredu'n effeithiol. Dyrennir y gyllideb ar gyfer cymorth gweinyddol y Bwrdd, a'r gyllideb i dalu'r holl gostau sy'n deillio o'r Penderfyniad, gan Gomisiwn y Senedd a'i chymeradwyo gan y Senedd yn flynyddol. Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad, prosesu hawliadau'r Aelodau a darparu canllawiau a chymorth i Aelodau a'u staff ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Penderfyniad. Er bod disgwyliad deddfwriaethol i'r Bwrdd gynnal ei annibyniaeth, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r profiad a gafwyd o weithredu'r Penderfyniad ac a yw'n cyd-fynd â'i fwriadau a'i amcanion polisi. Felly, mae'n bwysig bod y Bwrdd a'r Comisiwn yn gweithio'n rhyngddibynnol i ryw raddau i sicrhau bod amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

1.4 Mae'r Bwrdd yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid yn ystod 2025-26 gyda phenodi tri aelod newydd o'r Bwrdd, a dechrau pedwerydd tymor y Bwrdd. Er gwaetha'r cyfnod trawsnewid hwn, down i'r casgliad bod hwn yn Fwrdd sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun ei faint a'i adnoddau cyfyngedig. O'i asesu yn erbyn egwyddorion bywyd cyhoeddus, a chodau arfer da eraill, mae'r fframwaith llywodraethu yn gymesur, yn addas at y diben, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da. Gyda'r sylfeini cadarn hyn yn eu lle, mae ein harsylwadau ar gyfer datblygu yn canolbwyntio ar bedair thema.

1.5 Yn gyntaf, dylid parhau i fireinio ei ddull o lunio polisiau er mwyn gwella eglurder a thryloywder wrth iddo ddechrau ar drafodaethau ar gyfer tymor nesaf y Bwrdd. Er enghraifft, drwy egluro ble y lleolir y Penderfyniad ar y continwrm rhwng cael ei seilio ar reolau ac ar egwyddorion, datblygu ystod ehangach o ddangosyddion i fesur ei ganlyniadau strategol, a chytuno ar y risgiau allweddol i gyflawni ei bwrpas ochr yn ochr â lliniariadau cysylltiedig.

1.6 Yn ail, o ystyried bod angen i'r Bwrdd a'r Comisiwn gydweithio'n adeiladol ac yn sensitif, mae'n gwbl briodol ceisio mwy o gydweithio rhwng y ddau gorff i sicrhau bod penderfyniadau gweithredol a wneir gan y Comisiwn yn cefnogi amcanion strategol y Bwrdd.

1.7 Yn drydydd, o ystyried y rôl bwysig sydd gan randdeiliaid allweddol wrth gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion, mae'n hanfodol parhau i ganolbwyntio ar wella ei strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r cylch cynllunio sydd i ddod.

1.8 Yn olaf, ceir rhai meysydd llywodraethu arferol a fyddai'n elwa o weld mwy o ffurfioli i fodloni arfer da allanol. Er enghraifft, penodi Is-gadeirydd / aelod uwch o'r Bwrdd i ddarparu dirprwy ffurfiol yn absenoldeb y Cadeirydd a gweithredu fel cyfryngwr yn ôl yr angen. Yn yr un modd, er i ni weld rhyw gymaint o brosesau anffurfiol sydd fel pe baen nhw'n gweithio'n dda, gellid gweld manteision o ddogfennu agweddau fel cynllunio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac amserlennu materion llywodraethu arferol yn agendâu cyfarfodydd y Bwrdd.

1.9 Rydym ni'n hyderus y bydd gweithredu ein hargymhellion, sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus, yn cynorthwyo'r Bwrdd i wella ei effeithiolrwydd ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

2 Cyflwyniad

2.1 Gofynnwyd i FinWell Coaching & Consulting Ltd ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ei effeithiolrwydd yn sgil adolygiad effeithiolrwydd canol y tymor, a adroddodd ym mis Ionawr 2023. Wrth i'r Seithfed Senedd agosáu, mae'r Bwrdd mewn cyfnod o drawsnewid gydag aelodau newydd yn ymuno â'r Bwrdd yn ystod 2025: dau aelod newydd ym mis Mai ac un arall ym mis Medi. Gan gadw'r cyd-destun hwn mewn cof, cylch gorchwyl yr adolygiad oedd nodi unrhyw wersi ar gyfer y Bwrdd newydd o ran ei ffyrdd o weithio, rheoli busnes y Bwrdd, a datblygu a chynnal deinameg y bwrdd. Roedd y broses adolygu yn cynnwys:

- Adolygu polisïau perthnasol y Bwrdd a phecynnau tair cyfarfod y Bwrdd;
- Ymdrin ag ymatebion i holiaduron unigol gan aelodau'r Bwrdd, yr Ysgrifenyddiaeth, Comisiwn y Senedd, ac unigolion o grwpiau Cynrychiolwyr yr Aelodau a'r Staff Cymorth i Aelodau;
- Cynnal ystod o gyfweiliadau ag aelodau'r Bwrdd, yr Ysgrifenyddiaeth, Comisiwn y Senedd, yn ogystal ag unigolion o grwpiau Cynrychiolwyr yr Aelodau a'r Staff Cymorth i Aelodau; ac
- Arsylwi ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025, gan gynnwys y cyfarfodydd cyn ac ar ôl y Bwrdd yn unig a gynhaliwyd ar yr un diwrnod.

2.2 Bu i'n hadolygiad ddefnyddio'r codau ymarfer a'r egwyddorion canlynol fel meincnod ar gyfer yr asesiad:

- Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ochr yn ochr â chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Effeithiolrwydd y Bwrdd (2024)
- Canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar adolygiadau effeithiolrwydd Byrddau: egwyddorion ac adnoddau ar gyfer cyrff hyd braich (diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2022)
- 12 Egwyddor Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol Cyrff Cyhoeddus (2021)
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Egwyddorion Nolan (diweddarwyd ddiwethaf 2019)

2.3 Yn ogystal, daeth ein hymgynghorwyr â'u gwybodaeth a'u profiad o arfer da a welwyd mewn amrywiaeth o sefydliadau eraill yn eu sgil, gan gynnwys Byrddau Statudol.

2.4 Daethom at ein gwaith yng nghyd-destun maint y Bwrdd, ei gylch gwaith statudol, a'i gynlluniau strategol, er mwyn sicrhau bod ein hargymhellion yn gymesur ac yn ystyried nodau'r dyfodol. Yn hanfodol, ni fu i'r adolygiad asesu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol ar gyfer llywodraethu'r Bwrdd. Felly, er ein bod wedi gwneud sylwadau am rai o'r cyfyngiadau a osodir ar y Bwrdd gan y ddeddfwriaeth, mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar newidiadau y gellir eu cyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.

3 Casgliadau

Rhennir yr adroddiad hwn yn gasgliadau ar draws saith maes allweddol o ran effeithiolrwydd y Bwrdd:

- Cyfansoddiad y Bwrdd;
- Strategaeth, risg, a phwrpas;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Arweinyddiaeth gan y Cadeirydd;
- Deinameg, diwylliant ac ymddygiad y Bwrdd; a
- Prosesau'r Bwrdd.

Efallai y gwelir y bydd ein casgliadau ni'n ysgogi syniadau ynghylch ffyrdd eraill o gyflawni deilliannau llywodraethu da. Mater i'r Bwrdd yw penderfynu a ddylid derbyn, anwybyddu, neu bennu dull arall o ymdrin â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Cynhwysir rhestr o'r holl argymhellion yn Atodiad I.

3.1 Cyfansoddiad y Bwrdd

3.1.1 Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Bwrdd gynnwys pump o unigolion gan gynnwys y Cadeirydd. Mae'r Bwrdd wedi dechrau cyfnod o bontio, gydag aelodau newydd yn ymuno yn ystod 2025; ymunodd dau â'r Bwrdd ym mis Mai (yn dilyn ymddiswyddiad dau aelod o'r Bwrdd oherwydd penodi un i swydd Weinidogol, a chyfnod o salwch ar ran y llall) a bydd un arall yn dechrau ym mis Medi, pan fydd ail dymor – a thymor olaf – aelod presennol o'r Bwrdd yn dod i ben. Ailbenodwyd y Cadeirydd ac un aelod o'r Bwrdd am ail dymor sy'n para pum mlynedd o fis Medi 2025 ymlaen.

3.1.2 Mae'r Bwrdd yn cynnwys unigolion cymwys a galluog, nad yw'n syndod o ystyried ffurfioldeb, trylwyredd a thryloywder y broses benodi a arweinir ar ran y Senedd gan y Comisiwn. Serch hynny, mae'n anochel bod cyfyngiadau statudol ynghylch ei faint yn gosod rhai cyfyngiadau ar amrywiaeth y Bwrdd o ran sgiliau, profiad, cefndir a nodweddion gwarchodedig. Ymhellach, mae risg gynhenid fwy y bydd y Bwrdd yn syrthio i fagl meddylfryd grŵp (er nad yw hyn yn rhywbeth a nodwyd gennym yn ymarferol yn ystod ein harsylwadau cyfarfod). Mae hefyd yn llai gwydn nag y gellid ei ystyried yn ddelfrydol, er enghraifft, absenoldeb yn deillio o amgylchiadau personol annisgwyl, dibyniaeth ar set sgiliau penodol unigolyn, a'r amser y mae'n ei gymryd i benodi aelodau newydd. Ceisiodd y Bwrdd liniaru'r risgiau hyn trwy ddefnyddio arbenigwyr allanol perthnasol a rhoi mewnbwn priodol i'r Comisiwn ynghylch y sgiliau y mae'r Bwrdd yn chwilio amdanynt yn ystod y broses recriwtio ar gyfer aelodau newydd. Nodwyd y manteision i'r Bwrdd o gael un aelod sydd wedi bod yn seneddwr etholedig yn flaenorol.

3.1.3 Nodwyd gennym nad oes Is-gadeirydd / aelod uwch o'r Bwrdd. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig wrth gynnal cydbwysedd grym priodol o fewn y Bwrdd a sicrhau effeithiolrwydd arweinyddiaeth y Bwrdd. Adroddwyd i ni fod rôl o'r fath wedi'i dyrannu'n anffurfiol yn y gorffennol wrth i'r angen godi, er enghraifft i weithredu yn rhinwedd y Cadeirydd pe bai'n absennol. Fodd bynnag, **rydym yn argymhell bod y Bwrdd yn penodi Is-gadeirydd / aelod uwch o'r Bwrdd yn ffurfiol i weithredu fel dirprwy, darparu carreg ateb i'r Cadeirydd, a gwasanaethu fel cyfryngwr i aelodau eraill y Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol.**

[Blaenoriaeth: CANOLIG]. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun Bwrdd cymharol fach a'r rôl allweddol a chwaraeir gan y Cadeirydd wrth gysylltu â rhanddeiliaid.

3.2 Strategaeth, risg, a phwrrpas

3.2.1 Amlinellir Pwrrpas y Bwrdd yn y Mesur. O fewn y fframwaith hwn, cytunodd y Bwrdd ar ei nodau ac amcanion ar gyfer y Chweched Senedd, a ddisgrifir yn ei strategaeth ar gyfer y cyfnod 2021-26¹. Mae proses lunio polisi'r Bwrdd wedi canoli o gwmpas pedair thema strategol² ac mae wedi mabwysiadu tair egwyddor arweiniol³.

3.2.2 Yn sail i amcanion strategol y Bwrdd mae'i ddull o fynd ati i lunio polisi. Agwedd allweddol ar hyn yw ble y dylai'r Penderfyniad sefyll ar y continwwm rhwng cael ei seilio ar reolau a chael ei seilio ar egwyddorion. Rydyn ni'n deall y cytunwyd ar yr athroniaeth hon yng nghamau cynharaf trafodaethau'r Bwrdd o ran thema symlach y Penderfyniad ar ddechrau'r Chweched Senedd. Yn ein barn ni, mae'r agwedd hon ar y dull o fynd ati i lunio polisi yn gonglfaen o ran gwaith y Bwrdd. Felly, **hoffem argymhell ailymweld â lleoliad y Penderfyniad, a'i fireinio, fel mewnbwn allweddol o ran ffurfio strategaeth ar gyfer y Seithfed Senedd. [Blaenoriaeth: CANOLIG].** Mae calibradu fel hynny'n sicrhau y ceir ymatebion ymarferol a chymesur ac, mewn byd delfrydol, hoffem awgrymu y dylid cynnal yr ymarfer hwn mewn cydweithrediad â'r Comisiwn ac efallai â rhanddeiliaid allweddol eraill. Gellid ei wireddu drwy ychwanegu pennawd at dempled adrodd y Bwrdd sy'n annog yr awdur i amlinellu sut mae penderfyniadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r athroniaeth y cytunwyd arni. Gellid defnyddio'r allbwn fel mecanwaith i wella dealltwriaeth rhanddeiliaid o sut mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

3.2.3 Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol, sy'n cyfeirio at ystod o ganlyniadau a gwybodaeth ansoddol yn erbyn ei bedwar amcan strategol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn gwneud cynnydd da tuag at symleiddio, fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad hwn, nid oedd y Penderfyniad terfynol wedi'i gwblhau eto, ac felly nid oedd canlyniadau'r agenda symleiddio wedi'u cadarnhau hyd hynny. Nid yw rhai amcanion, yn fwyaf nodedig 'cynaliadwyedd' a 'hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltiad', yn gyfan gwbl o fewn grymoedd y Bwrdd i'w cyflawni, gan eu bod yn rhannol ddibynnol ar gyd-ymrwymiad a gweithredu gydag Aelodau. Mae Adran 3. 3 isod (Ymgysylltu â Rhanddeiliaid) yn disgrifio ein barn ar gynnydd y Bwrdd yn erbyn yr amcan strategol 'ymatebol'.

3.2.4 Mae gan y Bwrdd yn weladwy i ryw raddau ynghylch a yw'r Penderfyniad yn cyflawni ei ddiben cyffredinol a'i amcanion strategol gydol yr amser. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth feintiol, fel lefel yr hawliadau / y defnydd gan Aelodau yn erbyn gwahanol categorïau o gostau, ac adborth ansoddol a gesglir gan rhanddeiliaid. Serch hynny, **hoffem argymhell bod y Bwrdd**

¹ <https://bwrddtaliadau.cymru/media/ywenfywo/strategaeth-ar-gyfer-2021-26.pdf>

² Penderfyniad ymatebol, Penderfyniad symlach, Penderfyniad cynaliadwy, a hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.

³ "Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau. Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, a chynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr."

yn ystyried ystod ehangach o ddangosyddion i fesur yn erbyn ei amcanion strategol. Dylid casglu'r rhain yn systematig a'u hadolygu'n rheolaidd i nodi meysydd lle efallai y bydd angen mireinio neu ddiweddarau'r Penderfyniad i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i ddiben deddfwriaethol. [Blaenoriaeth: CANOLIG]. Wrth wneud pob penderfyniad gan y Bwrdd, mae'n arfer da diffinio mesurau llwyddiant ymlaen llaw. Dylai'r Bwrdd ystyried sut y bydd yn asesu effeithiolrwydd y penderfyniad, gyda'r Comisiwn yn adrodd yn ôl yn systematig ar bwyntiau data perthnasol yn rheolaidd. Mae hyn yn creu dolen adborth gyson, gan alluogi'r Bwrdd i fonitro canlyniadau, addasu trywydd yn ôl y galw, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion strategol.

3.2.5 Er i ni dystio i ystyriaeth ymhlyg o amrywiaeth o risgiau a allai ddeillio o benderfyniadau unigol, nid oes gan y Bwrdd farn gytûn o ran y risgiau allweddol y mae'n eu hwynebu wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Yn absenoldeb hyn, mae'r posibilrwydd o wneud penderfyniadau anghyson neu ddigyswllt yn cynyddu. **Hoffem argymhell bod y Bwrdd yn cytuno ar y prif risgiau a'r risgiau sy'n cael eu hamlygu wrth fynd ymlaen, o ran cyflawni ei ddiben ochr yn ochr ag unrhyw liniaru cysylltiedig, a bod hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol, o leiaf. [Blaenoriaeth: CANOLIG].** Er y gall creu cofrestr risg ffurfiol ymddangos fel pe bai'n ychwanegu biwrocratiaeth yn hytrach na gwerth, mae manteision i wneud hyn, gan y gall gynorthwyo'r Bwrdd i fod yn llai adweithiol, dyrannu ei adnoddau cyfyngedig i'r meysydd risg uchaf, cytuno pa gamau lliniaru (os o gwbl) sy'n briodol, pa risgiau y gallai'r Bwrdd fod yn fodlon eu derbyn, neu efallai nad ydynt o fewn eu rheolaeth o gwbl. Yna mae llawer o Fyrddau (gan gynnwys rhai yn y sectorau cyhoeddus a nid-er-elw), yn defnyddio'r allbwn o'r dadansoddiad hwn i ddiffinio eu harchwaeth am risg a chreu rheiliau gwarchod i roi sicrwydd iddynt fod yr hyn a weithredir ganddynt yn cefnogi amcanion strategol cyffredinol y Bwrdd. Bydd diffinio archwaeth risg glir yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar y materion pwysicaf, drwy wahaniaethu rhwng lefelau derbyniol o risg a meysydd sydd angen eu huwchgfyfeirio neu sydd angen craffu'n fanylach arnynt.

3.2.6 Yn gysylltiedig â hyn, bu i ni nodi fod potensial i archwaeth strategol y bwrdd am risg wahaniaethu oddi wrth archwaeth risg y Comisiwn ar y pwynt gweithredu. Er y gallai hyn ymddangos fel rhywbeth sy'n gyson â disgwyliad deddfwriaethol i gynnal annibyniaeth y Bwrdd, mae adran 3(3) o'r Mesur yn datgan:

Rhaid i'r Bwrdd adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n ymddangos bod y penderfyniadau hynny'n gwireddu'r amcanion a nodir yn is-adran (2), gan roi sylw i'r canlynol —

- (a) y profiad a geir drwy roi penderfyniadau'r Bwrdd ar waith,
- (b) newidiadau yn swyddogaethau aelodau'r Cynulliad, a
- (c) unrhyw newidiadau perthnasol eraill yn yr amgylchiadau.

y mae'r penderfyniadau hynny fel pe baen nhw'n cyflawni'r amcanion a amlinellir yn isadran (2) [sy'n amlinellu amcanion y Bwrdd]"

Yn ein barn ni, mae'n bwysig cydnabod bod yn rhaid i'r Bwrdd a'r Comisiwn weithio'n gyd-ddibynnol i ryw raddau; mae eu gallu i gydweithio'n adeiladol ac yn sensitif yn angenrheidiol

os yw amcanion y Bwrdd i gael eu cyflawni'n llwyddiannus. Felly, **hoffem argymhell bod y Bwrdd a'r Comisiwn yn cytuno ar sut y gall y Bwrdd sicrhau drosto'i hun bod penderfyniadau gweithredol a wneir gan y Comisiwn yn cefnogi amcanion deddfwriaethol y Bwrdd, gan ddiogelu annibyniaeth y Bwrdd ar yr un pryd. [Blaenoriaeth: CANOLIG]**

3.2.7 O'r tu mewn i'r Bwrdd, cafwyd cytundeb cyffredinol mai'r materion pwysicaf fydd yn codi dros y 12-18 mis nesaf yw:

- Monitro ac adolygu effaith Penderfyniad diweddaraf y Bwrdd yn ystod y Seithfed Senedd;
- Cytuno ar flaenoriaethau strategol y Bwrdd ar gyfer y Seithfed Senedd; a
- Cynnal a gwella cysylltiadau effeithiol ag Aelodau a'u staff (presennol a newydd) yn ogystal â'r Comisiwn.

3.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

3.3.1 Yn achos unrhyw Gorff Statudol, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'u rheoli'n effeithiol yn hanfodol i'w lwyddiant strategol. Gwelsom lefelau uchel o dryloywder gyda gwybodaeth wedi'i chyfeirio'n dda ar draws gwefan y Bwrdd fel yn achos gwybodaeth gorfforaethol (gan gynnwys y strategaeth gyfredol, adroddiadau blynyddol, adolygiad effeithiolrwydd tymor canolig, cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd, a Siarter y Bwrdd). Mae'r Bwrdd hefyd yn cyhoeddi dogfennau allweddol o'i raglen waith polisi (ymgyngoriadau, ymchwil sy'n llywio ei benderfyniadau, y Penderfyniad a chrynodeb o bob pennod).

3.3.2 Bydd y Bwrdd yn derbyn mewnbyn gan rhanddeiliaid allweddol mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd picio-i-mewn gyda'r Aelodau a Chynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau. Mae'r grwpiau cynrychiolwyr yn gweithredu fel carreg ateb ar gyfer canfyddiadau'r bwrdd wrth iddynt ddod yn amlwg, ac maen nhw'n cynorthwyo'r Bwrdd wrth ddatblygu argymhellion y gellir eu gweithredu. Mae'r grwpiau Cynrychiolwyr hefyd yn rhoi cyfle i roi adborth i'r Bwrdd am eu barn ynghylch ymarferoldeb gweithio o dan y Penderfyniad.

3.3.3 Mae ymgysylltu mewn dulliau eraill â rhanddeiliaid yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a'r Clerc, ynghyd â thrafodaethau *ad hoc* gyda Phwyllgor Safonau'r Senedd a Bwrdd Pensiwn y Senedd. Ceir Deialog rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn hefyd, a Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, y Bwrdd a Bwrdd Pensiwn y Senedd. Er bod awydd i ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo ymddiriedaeth, cydnabuwyd y byddai hynny'n anodd yn ymarferol heb achosi cost sylweddol.

3.3.4 Yn gyffredinol, adroddwyd wrthym fod pob perthynas â rhanddeiliaid allweddol yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Fodd bynnag, nododd y grwpiau Aelodau a Chynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau fod parodrwydd eu cyfoedion i ymgysylltu ag agenda'r Bwrdd wedi'i rwystro gan ddiffyg ymddiriedaeth, yn dilyn rhai o'r penderfyniadau a wnaed yn ystod Covid. Roedd hefyd yn amlwg bod gwahanol safbwyntiau o ran i ba raddau y dylai'r Bwrdd gymryd diddordeb yn y ffordd y mae'r Comisiwn yn gweithredu'r Penderfyniad. Er bod dealltwriaeth ar waith bod y Bwrdd yn annibynnol ar rôl y Comisiwn, roedd sawl rhanddeiliad o'r farn bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb dros sicrhau bod gweithrediad ymarferol y Comisiwn yn cefnogi

bwriadau polisi y Bwrdd ei hun. Mae gennym gydymdeimlad â'r farn y dylai'r Bwrdd dderbyn rhyw fath o adborth i sicrhau cyd-fynd â bwriad polisi'r Penderfyniad, yn rhannol oherwydd adran 3(3) o'r Mesur (gweler paragraff 3.2.6 uchod). Un awgrym a gynigiwyd i ni oedd y gellid ymgynghori â'r Bwrdd ar ganllawiau drafft y Comisiwn mewn perthynas â'r Penderfyniad, i sicrhau bod aliniad polisi cyffredinol yn digwydd.

3.3.5 Mae proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd yn cael ei llywio a'i hategu gan waith dadansoddi, ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu eang â rhanddeiliaid. Cyhoeddir llawer o'i waith yn llawn, gydag elfen o dryloywder sydd ymhell y tu hwnt i'r hyn a welir mewn llawer o rannau eraill o'r sector cyhoeddus. Yn wir, clywsom sawl enghraifft gadarnhaol gan rhanddeiliaid, ble roedd y Bwrdd wedi bod yn ymatebol i'w hadborth. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu'r eglurder angenrheidiol ynghylch pam y daethpwyd i benderfyniad penodol. Cafwyd cydnabyddiaeth gan bob plaid fod y math hwn o ymgysylltu yn dibynnu ar weld rhanddeiliaid yn meddu ar y parodrwydd a'r gallu i ymgysylltu â'r deunydd hwn. Serch hynny, roedd ymdeimlad yn parhau ymhlith rhai rhanddeiliaid y gallai'r Bwrdd ddarparu adborth mwy uniongyrchol drwy'r grwpiau Aelodau a Chynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau mewn achosion pan fydd wedi penderfynu, ar y cyfan, i gymryd safbwynt gwahanol i'r hyn a gyflwynwyd gan rai rhanddeiliaid. Mynegwyd barn ymhlith y grwpiau Cynrychiolwyr nad oedd penderfyniadau'r Bwrdd bob amser yn cyd-fynd â'u profiad nhw eu hunain. Mewn achosion fel y penderfyniadau hyn, dyma ble y bydden nhw'n gwerthfawrogi esboniad ysgrifenedig mwy manwl y gallent ei rannu gyda'u haelodau ac efallai fynd ati i feithrin deialog adeiladol pellach. Mynegwyd barn hefyd ymhlith y grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau fod barn yr Aelodau yn cael ei hystyried yn bwysicach o'i gymharu â'u barn hwy o ran trafodaethau'r Bwrdd. Un maes ble gallai fod angen newid hefyd yw lleoliad sesiynau picio-i-mewn y grŵp Aelodau a Chynrychiolwyr Staff Cymorth Aelodau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.

3.3.6 Awgrymwyd i ni mai un ffactor pwysig sy'n gyrru llwyddiant y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yw sicrhau bod Aelodau newydd a phresennol a'u staff yn deall beth mae'r Penderfyniad yn ei olygu iddyn nhw a'u rolau. Un awgrym oedd y dylai'r Bwrdd a'r Comisiwn gyflwyno'r hyfforddiant hwn ar y cyd fel bod neges gyson yn cael ei chyflwyno wrth gydnabod eu rolau ar wahân.

3.3.7 Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn golygu mai dim ond mewn cyfnod cymharol gywasgedig y gellir gwneud llawer o'r ymgynghori a'r gwaith gwneud penderfyniadau. Yn wir, mae'r Bwrdd fel arfer yn cyfarfod tua phump neu chwe gwaith y flwyddyn ond bu'n cyfarfod yn amlach yn ystod y 12-18 mis diwethaf wrth gwblhau ei gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd. Er bod hyn wedi'i reoli'n dda o fewn y cyfyngiadau amser hynny, yn enwedig trwy ymdrechion ymroddedig tîm staff cymorth y Bwrdd, mae wedi profi'n heriol i bob rhanddeiliad ymgysylltu'n effeithiol drwyddo draw.

3.3.8 Deallwn fod strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid y Bwrdd wedi'i chytuno ar ddechrau'r Chweched Senedd. O ystyried pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol i gyflawni pwrpas y Bwrdd, **hoffem argymhell ailymweld ag agwedd strategol y Bwrdd ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r cylch cynllunio nesaf.** [Blaenoriaeth: CANOLIG]

3.4 Arweinyddiaeth o'r Gadair

3.4.1 Mae'r Cadeirydd yn uchel ei pharch, yn ddiwyd, yn ymatebol, ac wedi meithrin perthynas adeiladol â rhanddeiliaid allweddol. Mae ganddi wybodaeth ddofn am seneddau Cymru a Lloegr, ac mae ei set sgiliau eang yn golygu ei bod yn gyfforddus iawn ar draws pob agwedd ar agenda'r Bwrdd. Mae hi'n rheoli cyfarfodydd y Bwrdd yn effeithlon ac yn broffesiynol, gan daro cydbwysedd da rhwng eithriadau yn unig a thrafodaeth ehangach ar bynciau allweddol. Mae hi'n ennyn barn pobl, sy'n galluogi dadl iach ac yn sicrhau y gall pawb gyfrannu'n rhydd. Er nad yw o fewn rheolaeth uniongyrchol y Bwrdd dylid ystyried, yn ein barn ni, gynllunio olyniaeth ar gyfer rôl y Cadeirydd mewn da bryd, er mwyn sicrhau parhad ac effeithiolrwydd cynaliadwy'r Bwrdd y tu hwnt i'r Seithfed Senedd.

3.5 Deinameg, diwylliant ac ymddygiad y Bwrdd

3.5.1 Cyn i ddau aelod newydd ymuno â'r Bwrdd ym mis Mai, adroddwyd bod y deinameg rhyngersonol yn gefnogol, yn agored, ac yn golegol. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, bu i ni nodi hefyd ddiwylliant o barch cydfuddiannol sy'n sbarduno her a chefnogaeth feddylgar. Gwelsom nifer o enghreifftiau uniongyrchol o gyflwyno safbwyntiau strategol ac amrywiol i drafodaethau, gyda safbwyntiau amgen yn cael eu croesawu'n agored a'u hystyried yn feddylgar. Mae deinameg y Bwrdd hefyd yn elwa o drafodaethau adeiladol cyn i'r Bwrdd gael ei gynnal, i ddarparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau sydd ar ddod ac i ailedrych ar yr ystyriaethau hanesyddol sydd wedi llunio'r sefyllfa bresennol. Mae'r arfer hwn yn cefnogi parhad llywodraethu ac yn gwasanaethu fel mecanwaith gwerthfawr ar gyfer cyflwyno aelodau newydd, gan eu galluogi i ymgysylltu â mwy o fewnwelediad a hyder o'r cychwyn cyntaf. Serch hynny, gydag aelod arall yn gadael ac un arall yn ymuno yn yr hydref, **hoffem argymhell bod y Bwrdd yn cytuno sut y gall barhau i feithrin cysylltiadau rhyngersonol cadarnhaol a chyflawni hyn wrth symud ymlaen. [Blaenoriaeth: ISEL]**

3.5.2 Cydnabuwyd bod llywio drwy gyfarfodydd hybrid ac ar-lein ychydig yn fwy heriol o ran deinameg rhyngersonol, felly mae'n parhau i fod yn bwysig rheoli'r rhain yn ofalus, er enghraifft o ran nifer y mynychwyr a gweledd ar y sgrin.

3.5.3 Mae'r Mesur yn datgan bod penderfyniadau polisi'r Bwrdd yn ymrwymol, ac felly nid ydynt yn destun apêl. Ymhellach, nodwyd bod y Bwrdd wedi "ymrwymo i gynnal polisi Urddas a Pharch y Senedd" ac mae hyn yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried unrhyw gwestiynau a allai godi ynghylch ymddygiad ac ymarweddiad unigolion. Yn olaf, adolygwyd y Gofrestr Buddiannau a gynhelir ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd a gwelsom ddiwylliant lle mae gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei gydnabod a'i reoli'n briodol.

3.6 Prosesau'r Bwrdd

3.6.1 Bu i ni weld ansawdd uchel o ran cefnogaeth i'r Bwrdd gan ei ysgrifenyddiaeth ac aelodau o'r Comisiwn. Cydnabyddir yn eang gan aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol fel ei gilydd fod hyn yn ganolog er mwyn galluogi effeithiolrwydd y Bwrdd. Yn ein barn ni mae'r cryfder hwn yn cynnig darpar risg hefyd, a hoffem **argymhell fod y Bwrdd yn trafod cynllunio olyniaeth addas yn y tymor byr a'r tymor canolig ar gyfer staff cefnogi allweddol er mwyn lliniaru risg personau allweddol. [Blaenoriaeth: CANOLIG]**

3.6.2 Nid corff corfforaethol mo'r Bwrdd ond mae'n cael ei ariannu'n gyhoeddus ac felly mae angen iddo weithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethu da cydnabyddedig. Nodwyd y rhain yn Siarter y Bwrdd⁴, sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd yn cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn modd sy'n annibynnol, yn agored ac yn gynhwysol. Yng ngoleuni adborth rhanddeiliaid a'n harsylwadau ninnau, hoffem **argymell diweddarau Siarter y Bwrdd i ymgorffori materion perthnasol a nodwyd yn ystod yr adolygiad diwedd tymor hwn. [Blaenoriaeth: ISEL]**

3.6.3 Yn gyffredinol, mae dogfennau'r bwrdd yn glir a chyflawn, yn enwedig y rheiny ar y cam gwneud penderfyniadau, ble mae'n bwysig cynnal llwybr archwilio grymus. Yng nghamau cynnar llunio polisi, mae aelodau'r Bwrdd wedi croesawu defnyddio sleidiau Powerpoint i symbylu trafodaeth o gwmpas ystod eang o opsiynau.

3.6.4 Roedd hi'n arbennig o nodedig gweld cymaint o ystyriaeth a roddir i agweddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (ED&I) o fewn yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a baratowyd i gyd-fynd â phob ymgynghoriad. Pan fu i ni herio a oes gan y Bwrdd ddata ED&I digonol er mwyn asesu i ba raddau mae'r Penderfyniad yn ateb ei amcanion (y mae'r strategaeth bresennol yn nodi fod amrywiaeth yn agwedd allweddol) clywsom sawl sylw gwahanol. Yn eu plith roedd:

- a) Yr heriau sydd ynghlwm â chasglu'r data hwn e.e. y sail gyfreithiol addas o dan GDPR, y gwaith ychwanegol i'r Comisiwn;
- b) Rhesymoldeb defnyddio data ehangach y Swyddfa Ystadegau, o ystyried nad yw'r Aelodau presennol a'u staff o reidrwydd yn adlewyrchu'r rhai a allai fod yn ymgymryd â'r rolau hyn yn y dyfodol; a
- c) Mai'r Aelodau sy'n cyflogi eu staff, nid y Bwrdd na'r Comisiwn.

Ar y cyfan, hoffem **argymell bod y Bwrdd yn archwilio sut y gall gasglu data ED&I Aelodau a staff cyfredol, o ystyried ei fod yn fewnbnw pwysig er mwyn gwneud penderfyniadau fel eu bod yn cyd-fynd â'r canlyniad polisi y cytunwyd arno ynghylch bod unrhyw un yn gallu'i gynnig ei hunan. [Blaenoriaeth: ISEL]**

3.6.5 Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnal cyfarfod gwerthuso blynyddol gyda'r Cadeirydd. Er ein bod yn deall bod y Cadeirydd yn derbyn adborth drwy sgyrsiau anffurfiol dwyochrog o bryd i'w gilydd, nid oes proses werthuso gyfatebol ar gyfer y rôl honno, a fyddai'n cael ei ystyried fel arfer da. Hoffem **argymell bod uwch aelod o'r Bwrdd yn cael ei roi'n gyfrifol am gynnal gwerthusiad blynyddol y Cadeirydd (gweler hefyd baragraff 3.1.3). [Blaenoriaeth: ISEL]**

3.6.6 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar raglen o waith polisi i gyflawni'r Penderfyniad. Serch hynny, nid oes cynllun gwaith y cytunwyd arno ar gyfer darparu materion llywodraethu mwy beunyddiol drwy gydol y flwyddyn, fel ystyried risgiau allweddol, y matrices sgiliau a DPP cysylltiedig. Er i ni weld tystiolaeth fod y materion llywodraethu mwyaf beunyddiol yn cael eu hystyried yn ystod y cylch blynyddol, hoffem **argymell fod materion llywodraethu**

⁴ <https://bwrddtaliadau.cymru/media/e5upncgk/board-governance-principles-and-conduct-of-business-cy.pdf>

beunyddiol yn cael eu cynllunio fel rhan o amserlen cyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau nad oes dim yn cael ei golli. [Blaenoriaeth: ISEL]

3.6.7 Mae'n arfer da cynnal hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd (e.e. drwy gyfrwng holiadur). Fodd bynnag, o ystyried bod y Bwrdd hwn eisoes yn defnyddio ôl-drafod wedi cyfarfodydd ac adolygiad allanol canol tymor, gellid defnyddio dull mwy cymesur efallai drwy drefnu eitem agenda flynyddol syml sy'n gweld y Bwrdd yn trafod ffyrdd o weithio, gan ddefnyddio'r penawdau allweddol yn yr adroddiad hwn fel awgrymiadau o bosib. Gellid hefyd addysgu hyn yn ôl yr ôl-drafod wedi cyfarfodydd, ac unrhyw bwyntiau perthnasol sy'n deillio o arfarniadau blynyddol.

3.6.8 Mae cynllun cynefino effeithiol ar waith ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd, sy'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun strwythur cyfansoddiadol y Bwrdd a'i faint cymharol fach. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cymryd cyfrifoldeb dros eu haddysg a'u datblygiad eu hunain, gan dderbyn briffiau ar faterion perthnasol fel diwygio cyfansoddiadol, data economaidd a data cyflog. Gwelsom hefyd y trafodaethau cyn y Bwrdd yn cael eu defnyddio i grynhoi sut roedd dull y Bwrdd o feddwl wedi esblygu dros amser, yn ogystal ag egluro rhai o'r agweddau mwy technegol er budd aelodau newydd y Bwrdd. Serch hynny, hoffem **argymhell datblygu rhaglen DPP flaenweledol flynyddol ar gyfer y Bwrdd, sy'n cynnwys mewnbwn mewnol ac allanol mewn amrywiaeth o fformatau i sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd wedi'i arfogi i ymdrin â gofynion ei rôl i'r dyfodol. [Blaenoriaeth: ISEL]**

I grynhoi, dyma Fwrdd sy'n gweithredu'n dda ac yn effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun ei faint a'i adnoddau cyfyngedig. O'i asesu yn erbyn egwyddorion bywyd cyhoeddus, a chodau arfer da eraill, mae'r fframwaith llywodraethu yn gymesur, yn addas at y diben, ac yn hwyluso gwneud penderfyniadau o ansawdd da. Gyda'r sylfeini cadarn hyn yn eu lle, rydym ni'n hyderus y bydd gweithredu ein hargymhellion ar gyfer gwelliant parhaus yn cynorthwyo'r Bwrdd i wella ei effeithiolrwydd yn y blynyddoedd i ddod.

Lucy McClements a Julia Hillman

FinWell Coaching & Consulting Ltd

4 Atodiad I – Rhestr o argymhellion

Isod gwelir rhestr o'r holl argymhellion o'r adroddiad, ynghyd â cholofnau ar gyfer ymateb y Bwrdd, Statws Cyfredol, a Pherchennog. Rydym wedi anodi argymhellion gyda phwysigrwydd / brys Uchel, Canolig, neu Isel (Uchel = cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater cyn gynted â phosibl, Canolig = cymryd camau o fewn y 6 i 12 mis nesaf, ac Isel = dim brys).

Efallai hefyd y bydd ein hargymhellion yn ysgogi ystyried ffyrdd amgen o gyflawni'r un canlyniadau. Mater i'r Bwrdd yw penderfynu a ddylid derbyn, gwrthod, neu benderfynu ar ddull amgen ar gyfer pob argymhelliad.

Argymhelliad	Ymateb y Bwrdd	Statws	Perchen
1. Dylai'r Bwrdd benodi Is-gadeirydd / aelod uwch o'r Bwrdd yn ffurfiol i weithredu fel dirprwy, bod yn garreg ateb i'r Cadeirydd, a gwasanaethu fel cyfryngwr ar gyfer aelodau eraill y Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
2. Dylid ailymweld a mireinio lleoliad y Penderfyniad o ran ble y'i lleolir ar y continwwm rhwng cael ei seilio ar reolau ac ar egwyddorion, fel mewnbwn allweddol o ran ffurfio strategaeth ar gyfer y Seithfed Senedd. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
3. Dylai'r Bwrdd ystyried ystod ehangach o ddangosyddion i fesur yn erbyn eu hamcanion strategol. Dylid casglu'r rhain yn drefnus a'u hadolygu'n rheolaidd i amlygu meysydd ble y gall fod angen mireinio neu ddiweddarau'r Penderfyniad i sicrhau ei fod yn unol â'i bwrpas deddfwriaethol. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
4. Dylai'r Bwrdd gytuno ar y risgiau blaenaf ac amlygol o ran darparu'i bwrpas law yn llaw ag unrhyw liniaru cysylltiol, ac y dylid adolygu hyn ar sail flynyddol o leiaf. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
5. Dylai'r Bwrdd a'r Comisiwn gytuno o ran sut y gall y Bwrdd sicrhau'i hunan fod penderfyniadau gweithredol a wneir gan y			

Comisiwn yn cefnogi amcanion deddfwriaethol y Bwrdd, ac ar yr un pryd yn diogelu annibyniaeth y Bwrdd. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
6. Ailymweld ag elfen ymgysylltu rhanddeiliaid strategaeth y Bwrdd fel rhan o'r cylch cynllunio nesaf. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
7. Dylai'r Bwrdd gytuno o ran sut y gall adeiladu perthynas ryngbersonol gadarnhaol a darparu hyn ar gyfer y dyfodol. [Blaenoriaeth: ISEL]			
8. Dylai'r Bwrdd drafod cynlluniau olyniaeth byrdymor ac ar gyfer y tymor canolig ar gyfer staff cefnogi allweddol i liniaru risg i bersonau allweddol. [Blaenoriaeth: CANOLIG]			
9. Dylid diweddarau Siarter y Bwrdd i ymgorffori materion perthnasol a amlygwyd yn yr adolygiad diwedd tymor hwn. [Blaenoriaeth: ISEL]			
10. Dylai'r Bwrdd archwilio sut y gall gasglu data ED&I Aelodau a staff presennol, o ystyried ei fod yn fewnbwn pwysig ar gyfer penderfyniadau, er mwyn iddynt gyd-fynd â deilliannau polisi a gytunwyd o gylch unrhyw un yn gallu cyflwyno'u hunain. [Blaenoriaeth: ISEL]			
11. Dylid clustnodi cyfrifoldeb i aelod uwch o'r Bwrdd dros ymgymryd ag arfarniad blynyddol y Cadeirydd. [Blaenoriaeth: ISEL]			
12. Dylai holl faterion llywodraethu beunyddiol gael eu cynllunio i amserlen cyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau nad oes dim yn cael ei golli. [Blaenoriaeth: ISEL]			
13. Dylid datblygu rhaglen DPP blynyddol blaengar i'r Bwrdd sy'n cynnwys mewnbwn mewnol ac allanol ar sawl ffurf, er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r Bwrdd yn abl i ddelio â galwadau'u rôl i'r dyfodol. [Blaenoriaeth: ISEL]			

